


# Cymeriadau Difyr



| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Deio Dau (2)** |
| Adnoddau: | • Eira ffug / ewyn eillio / reis gwyn.<br>• Twba tuff.<br>• 2 bowlen.<br>• Cerdyn gyda '2' arno a cherdyn gydag '1' arno. |
| Camau: | Yn y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Deio Dau', mae Deio Dau yn mynd allan i chwarae gyda'i ffrindiau yn yr eira. Mae e wrth ei fodd yn taflu peli eira, ac mae angen iddo ffeindio pâr (sef dau) o fenig er mwyn gallu mynd allan i ymuno â'i ffrindiau.<br><br>Cam 1 - I ddechrau, bydd angen gorchuddio'r twb gyda'r eira ffug / ewyn / reis i ail-greu'r eira ar lawr fel sydd yn y llyfr.<br>Cyn mynd at y prif weithgaredd, mae cyfle i'r dysgwyr ymarfer ffurfio'r rhif 2 gyda'u bys yn y deunydd gwyn sydd wedi ei ddefnyddio i orchuddio'r twba.<br><br>Cam 2 - Bydd angen i'r athro guddio gwrthrychau bychain yn y twba - rhai mewn parau a rhai'n unigol, e.e. esgidiau dol / llwyau / pensiliau / numicon / briciau adeiladau / gleiniau.<br><br>Cam 3 - Yn eu tro, gall y dysgwyr ddod at y twba a chwilio am wrthrych, a'i dynnu allan. Gall y dysgwyr osod eu gwrthrych ar y bwrdd, nes bod pentwr yn cael ei greu.<br><br>Cam 4 - Unwaith bydd pob un gwrthrych wedi ei ganfod, gall y disgyblion eu didoli o'r pentwr i ddwy bowlen. Dylai un bowlen ddangos cerdyn gyda'r rhif 2 arno, a'r llall ddangos cerdyn gyda'r rhif 1 arno.<br><br>Dyma gyfle i drafod beth sydd fel arfer yn dod mewn parau, a beth sydd fel arfer yn unigol / heb batrwm o fod mewn parau.<br><br><br> |





| | |
|---|---|
| Cwestiynu: | Sut mae'r eira ffug / ewyn / reis yn teimlo wrth i chi ffurfio'r rhif gyda'ch bys?<br>Ydych chi'n gallu ffeindio parau fel y gwnaeth Deio Dau?<br>Beth arall sydd fel arfer yn dod mewn parau?<br>Ewch i sefyll mewn parau - sawl person sydd angen i chi eu ffeindio er mwyn creu pâr? |
| Beth nesaf? | Beth am drafod y corff a phethau sy'n dod mewn parau neu'n unigol, gan sicrhau arwain y drafodaeth mewn modd gofalus a sensitif.<br>e.e. **<u>parau</u>** - llygaid / clustiau / aeliau / dwylo / traed / breichiau / coesau;<br>**<u>unigol</u>** - pen / trwyn / ceg / bol.<br><br>Athro i ddweud rhan o'r corff, a'r dysgwyr i bwyntio at y rhan wrth ddweud 'dau' neu 'un' yn ddibynnol a oes pâr ohonynt gan berson ai peidio.<br><br>Gellir defnyddio amlinelliad y corff ar ddarn mawr o bapur neu ar y bwrdd gwyn, a set o gardiau gyda'r geiriau/lluniau (yn ddibynnol ar sgiliau darllen y dysgwyr) ar gyfer rhannau addas y corff. Y disgyblion i osod y cardiau ar y corff yn y lleoedd addas, gan drafod ydyn nhw'n dod mewn parau neu'n unigol.<br><br>Gall y disgyblion hefyd roi'r cardiau mewn dau bentwr - rhai sydd mewn parau, a rhai nad ydynt mewn parau. |

